

Ar ôl Brecsit:

10 cwestiwn allweddol

o ran polisi gwledig yng Nghymru





Cynnwys

	Page
Rhagymadrodd	1
Beth yw goblygiadau Brexit i amaethyddiaeth yng Nghymru ac a allai/ ddylai llunwyr polisi geisio lliniaru'r effeithiau hyn?	3
A ddylid ystyried amaethyddiaeth a darparu nwyddau amgylcheddol yng Nghymru gyda'i gilydd ar ôl Brexit?.....	4
Sut mae integreiddio datblygiadau polisi ar draws ystod o anghenion gwledig ?	5
A fydd Brexit yn cynnig cyfleoedd newydd i'r sector bwyd a diod yng Nghymru a sut y gellid datblygu'r rhain?	6
Pa gyfleoedd sydd ar gyfer cynnyrch newydd neu wahanol o'r tir yng Nghymru?.....	7
Sut y gallai Brexit effeithio ar dueddiadau demograffig cefn gwlad Cymru?	8
Sut mae sicrhau na fydd ardaloedd gwledig ar eu colled o'u cymharu â'r ardaloedd trefol a dinesig wrth gael cymorth ariannol yn y dyfodol?	10
Sut mae meithrin ymhellach y berthynas a'r cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr ardaloedd gwledig a threfol?	12
Sut mae cefnogi ac annog datblygu gwledig ledled cefn gwlad Cymru ar ôl Brexit?	14
Sut y gall llunwyr polisi helpu diwydiannau newydd ac arloesol i ymsefydlu a hefyd i aros yng Nghymru ?	15
Cyfranwyr	16—17

Ar ôl Brexit: 10 cwestiwn allweddol o ran polisi gwledig yng Nghymru

Robert Bowen, Janet Dwyer, Rhys Dafydd Jones, Anne Liddon, Terry Marsden, Peter Midmore, Sally Shortall, Prysor Williams, Michael Woods, Sophie Wynne-Jones

Mae economi wledig Cymru'n amrywiol ond wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn amgylchedd naturiol cyfoethog Cymru. Er bod amaethyddiaeth yn ddiwydiant pwysig i Gymru, ac er mai dyma'r defnydd mwyaf a wneir o'r tir, un elfen o ddarlun cymhleth ydyw. Mae ardaloedd gwledig yn cael eu gweld i raddau helaeth iawn fel gweithleoedd, gan gynnwys yn y Parciau Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, lle y cedwir y ddysgl yn wastad rhwng dathlu treftadaeth a gwerthoedd amgylcheddol a thwf gweithgarwch economaidd. Gwelir gwerth amgylcheddol cefn gwlad Cymru yn y ffaith fod tua 30 y cant o'r tir a'r môr wedi'i ddynodi'n dirwedd neu gynefinoedd gwarchodedig.

Cig oen sy'n cael ei grybwyll amlaf gan ddefnyddwyr fel y cynnyrch Cymreig mwyaf nodweddiadol, ond mae hwn yn un o'r sectorau mwyaf bregus yn sgil Brexit. Mae newidiadau i daliadau cymorth ac ansicrwydd ynghylch masnach ill dau'n fygythiadau i ffermio ac i'r dirwedd sy'n gysylltiedig â hynny, yn enwedig ar dir uchel. Ar yr un pryd, mae'n gyrchfan wyliau boblogaidd sydd wedi elwa dros y blynyddoedd diwethaf ar dwf marchnadoedd hamdden awyr agored a thwristiaeth bwyd. Mae treftadaeth ddiwylliannol Cymru ac ymdeimlad cryf o le ac o gymuned yn nodweddion neilltuol sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu twristiaeth a marchnata bwydydd uchel eu gwerth. Er hynny, amrywiol yw lefelau'r angen yn lleol a'r gallu i weithredu yn hyn o beth. Mae'n amheus felly a ellir trin y wlad i gyd yn yr un modd wrth ddarparu cymorth. At ei gilydd, gallai colli ffrydiau ariannu Ewropeaidd beri goblygiadau eang a difrifol.

Er mwyn i ardaloedd gwledig yng Nghymru ffynnu fel cymunedau ac fel ardaloedd economaidd, bydd angen i lunwyr polisi fynd ati mewn ffordd ffres ac arloesol i gefnogi datblygiadau a diwydiannau newydd. Mae gweithio y tu hwnt i ffiniau a blaenoriaethau traddodiadol buddiannau sectoraidd yn ffordd allweddol o hybu arloesi. Gallai fod yn arbennig o ddefnyddiol mynd ati mewn ffordd fwy integredig sy'n seiliedig ar leoedd, ac sy'n cydnabod yr amrywiaeth a geir ymhlith rhanddeiliaid gwledig.



1

Beth yw goblygiadau Brexit i amaethyddiaeth yng Nghymru ac a allai/ ddylai llunwyr polisi geisio lliniaru'r effeithiau hyn ?

Mae'r diwydiant amaeth yng Nghymru'n seiliedig i raddau helaeth ar ffermydd teuluol bach sy'n ffermio cymysgedd o gynnyrch llaeth, eidion a defaid mynydd; gydag elw isel fwy na heb. Mae cyfyngiadau amgylcheddol megis hinsawdd arw a phriddoedd gwael yn cyfyngu gallu llawer o ffermydd i arallgyfeirio i fathau eraill o gynhyrchu amaethyddol. Mae taliadau cymorth yr UE wedi cynnal busnesau i raddau helaeth yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ac mae arian yr UE hefyd wedi cefnogi un rhaglen amaeth-amgylcheddol ar ôl y llall. Y rhaglen ddiweddaraf o'r rhain yw Glastir. Canfu astudiaeth gan Arsyllfa Wledig Cymru yn 2010 fod 25 y cant o ffermydd Cymru'n dibynnu ar y Taliad Sengl fel prif ffynhonnell eu hincwm – roedd hynny'n codi i 32 y cant o ffermydd defaid – ac y byddai un o bob pump ffermwr yn ystyried rhoi'r gorau i ffermio pe bai'r cymorthdaliadau'n lleihau'n sylweddol. Mae amaethu rhan amser ar ddaliadau llai lle mae incwm yr aelwyd yn dibynnu ar swyddi aelodau eraill o'r teulu oddi ar y fferm yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae'r swyddi hyn yn aml yn rhai mewn sector cyhoeddus sydd wedi dioddef yn sgil llymder, ac mae hynny'n golygu bod aelwydydd sy'n ffermio'n fwy bregus fyth. Gallai Brexit newid yn sylweddol strwythur a maint y taliadau cymorth a fydd ar gael i ffermwyr, a gallai newidiadau i'r trefniadau masnachu â'r UE (y mae'r rhan fwyaf o'r cig oen yn cael ei allforio iddo) effeithio'n sylweddol iawn ar werth cig oen. Gyda'i gilydd, gallai'r ffactorau hyn effeithio'n andwyol iawn ar gymunedau gwledig yng Nghymru, sy'n adlewyrchu cyfraniad cadwyni cyflenwi ffermydd i economïau lleol ac arwyddocâd rhwydweithiau ffermio o ran y Gymraeg. Os yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gefnogi cymunedau sy'n weithgar yn economaidd mewn ardaloedd gwledig, bydd angen ystyried effaith newidiadau polisi ar batrymau'r cydgysylltiad cymhleth hwn .

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- A allai ffermydd mynydd oroesi fel diwydiant hyfyw yng Nghymru pe byddai taliadau cymorth yn lleihau'n sylweddol neu'n dirwyn i ben?
- A ellid helpu cynhyrchwyr i arallgyfeirio i sectorau neu ddiwydiannau eraill lle y bo modd gwneud hynny?
- Sut mae helpu poblogaethau gwledig i baratoi ar gyfer amodau ariannol mwy llym?
- A allai amrywiaeth mwy cymysg o weithgarwch, yn enwedig ar yr ucheldir, gan gynnwys mwy o gyfleusterau twristiaeth a hamdden, ac ynni adnewyddadwy, helpu i ddiogelu dyfodol cymunedau gwledig?
- Sut y gall amaethyddiaeth yng Nghymru wneud yn fawr o'i safonau cynhyrchu uchel i greu cynnyrch premiwm uchel ei werth, a hybu synergeddau (a chyfleoedd yn y farchnad) ar yr un pryd er mwyn gwella llesiant amgylcheddol?
- Pa gamau y mae ffermwyr eu hunain yn eu cymryd, neu pa gamau y byddant yn eu cymryd, i leihau'r risg a gwella effeithiau Brexit, ac a ddylai'r Llywodraeth gymryd camau i ymdrin ag effeithiau negyddol posib megis dwysáu anghynaliadwy?

2

A ddylid ystyried amaethyddiaeth a darparu nwyddau amgylcheddol yng Nghymru gyda'i gilydd ar ôl Brexit?

Mae gweithredu'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y DU wedi gwahanu cymorth i amaethyddiaeth oddi wrth y polisi i dyfu'r economi wledig ehangach, tra bo gwarchod yr amgylchedd wedi bod yn "ychwanegyn". Gallai Brexit fod yn gyfle i lunio polisiau mewn modd mwy integredig. Ledled y DU gwelwyd arwyddion fod awydd cynyddol ymhlith y cyhoedd a llunwyr polisi i ystyried dulliau eraill mwy radical o gynorthwyo'r amgylchedd. Mae Cymru'n darparu nwyddau cyhoeddus pwysig i rannau eraill o'r DU (dŵr, storio carbon, bioamrywiaeth, rheoli llifogydd) a gellid ystyried talu am ddarpariaeth o'r fath yn rhan o becyn mwy.

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- I ba raddau y gallai taliadau am ddarparu nwyddau cyhoeddus (e.e. bioamrywiaeth, dŵr glân, storio carbon, tirweddau eiconig) gymryd lle neu ategu incwm cynhyrchu amaethyddol, yn enwedig ar yr ucheldir?
- Pa fathau o gymorth y gellid eu hystyried i wobrwyo a sicrhau darpariaeth nwyddau o'r fath?
- I ba raddau y mae angen i ni gynnig taliadau mwy penodol, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, am nwyddau cyhoeddus? A oes cyfiawnhad o hyd dros lefel sylfaenol o gymorth i gynhyrchwyr?
- A ddylai cymorth ddod yn bennaf o'r sector cyhoeddus? Beth yw rôl partneriaethau cyhoeddus/preifat a thrydydd sector a sut y gellid rhoi hynny ar waith?
- A allai busnesau megis cyfleustodau, a chwmnïau o bwys yn y gadwyn fwyd sydd â buddiant hanfodol yn economi wledig Cymru ar hyn o bryd, chwarae mwy o ran wrth lywodraethu nwyddau cyhoeddus?
- A oes modd gwneud yn fawr o'r cysylltiadau cadarnhaol rhwng iechyd a'r amgylchedd, er enghraifft gan ddefnyddio cyllidebau wedi'u cyfuno o dan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?
- Sut y gall grwpiau rhanddeiliaid gyfrannu at wneud penderfyniadau a chynllunio er mwyn meithrin cyswllt gwell rhwng y galw am nwyddau cyhoeddus a'r cyflenwad?
- I ba raddau y mae angen cymorth ar gyfer hyfforddiant, cyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd er mwyn ei gwneud yn haws cynnwys ffermwyr a rhanddeiliaid eraill wrth symud tuag at reoli tir ar gyfer nwyddau cyhoeddus?
- Faint mae'r cyhoedd yn ei ddeall am oblygiadau newid y cyllid ar gyfer gwahanol fathau o ddefnydd tir? A oes angen ymgyrch wybodaeth i egluro a sicrhau cefnogaeth y cyhoedd i newidiadau polisi?

3

Sut mae integreiddio datblygiadau polisi ar draws ystod o anghenion gwledig?

Roedd sawl ffactor yn gyfrifol am bleidlais y mwyafrif o Brexit yng Nghymru, gan gynnwys canfyddiadau pobl eu bod yn cael eu gwthio i'r cyrion yn economaidd ac yn wleidyddol mewn llawer o gymunedau gwledig a'r hen gymunedau diwydiannol. Roedd y gefnogaeth i Brexit ymhlith ffermwyr yn adlewyrchu'r rhannol yr anfonlonrwydd â'r fiwrocratiaeth a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r PAC. Ers y refferendwm, mae'r sylw sydd wedi'i roi i gynigion i ddiwygio cymorth amaethyddol wedi rhoi lefelau'r cymorthdaliadau o dan y PAC o dan y chwyddwydr. Cafwyd dadleuon o blaid ac yn erbyn parhau â chymorth o'r fath yn y cyfryngau, ac mae'n rhaid rhoi penderfyniadau ynghylch cymorthdaliadau cyhoeddus i amaeth yng nghyd-destun cyllideb lai Llywodraeth Cymru a thoriadau i gyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Gellid dadlau fod Brexit yn gyfle i gael sgwrs ehangach ymhlith llunwyr polisi, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynglŷn â chynaliadwyedd cymunedau gwledig a'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau cyhoeddus i hybu eu datblygiad cymdeithasol ac economaidd.

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- Beth allai ddod yn lle cyllid yr UE a chymorth i gymunedau gwledig, a ddarperir ar hyn o bryd drwy EAFRD (Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru), yr ERDF a'r ESF (LDA Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac MDA Dwyrain Cymru)?
- A ddylai fod mwy o integreiddio rhwng cynllunio a chefnogi amaeth, rheoli'r amgylchedd, datblygu gwledig a darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau gwledig (e.e. iechyd, addysg, cludiant cyhoeddus) mewn polisi gwledig cyfannol?
- A oes dadl dros ailgyfeirio cymorthdaliadau amaethyddol tuag at gymorthdaliadau ar gyfer seilwaith a gwasanaethau cymunedol gwledig (e.e. ysgolion, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, cludiant cyhoeddus, gwasanaethau cymdeithasol, seilwaith band eang)?
- A ddylid targedu cyllid at gymunedau penodol neu a ddylai fod ar gael i bob cymuned gwledig yng Nghymru? A oes angen polisiâu a rhaglenni penodol wedi'u targedu at gymunedau ucheldir? A ddylai dyraniadau cyllid fod yn gysylltiedig â mesurau anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd a gofodol?
- Pa ran ddylai awdurdodau lleol a chymunedau lleol ei chwarae wrth wneud penderfyniadau am gyllid a chyflawni camau gweithredu datblygu gwledig?
- A oes gennym ddigon o dystiolaeth i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â thargedu cymorth datblygu gwledig yng Nghymru, a sut y gellid gwella hynny?

4

A fydd Brexit yn cynnig cyfleoedd newydd i'r sector bwyd a diod yng Nghymru a sut y gellid datblygu'r rhain?

Mae bwyd a diod yn ddiwydiant o bwys yn economi Cymru, yn werth £6.9bn ac yn cyflogi dros 240,000 o bobl ledled y gadwyn gyflenwi. Mae bron i 90 y cant o'r allforion bwyd yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd. Bydd Brexit yn cynnig cyfleoedd a bygythiadau i'r sector. Mae'n debyg y bydd y DU yn datblygu fframwaith cenedlaethol, a gellid datganoli'r cymwyseddau i Lywodraeth Cymru. Nid yw'n glir beth fydd y goblygiadau o ran dynodiadau ansawdd os collwn statws gwarchodedig Ewropeaidd i gynnyrch Cymreig, na sut y gellid hwyluso neu noddi gwaith i ddatblygu labelu o'r fath yn y DU. Mae gan bymtheg o nwyddau bwyd Cymreig statws gwarchodedig Ewropeaidd (PGI) ar hyn o bryd. Ar y llaw arall, gallai cyfradd gyfnewid anwadal olygu bod mwy o nwyddau'n cael eu cyrchu o'r tu mewn i'r DU a gallai hynny gynnig cyfleoedd annisgwyl.

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- Beth fyddai goblygiadau posib modelau arfaethedig ar gyfer masnach a chysylltiadau cwsmeriaid rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol o ran allforio bwyd a diod o Gymru, a pha gamau y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd yn sgil hynny?
- Pa heriau a chyfleoedd allai godi i'r sector bwyd a diod yng Nghymru o gytundebau masnach newydd rhwng y DU a gwledydd eraill ar ôl Brexit?
- Pwy fydd yn gyfrifol am lywodraethu bwyd pan adferir pwerau oddi wrth yr UE? Beth fydd cyfrifoldebau a chymwyseddau Llywodraeth Cymru tuag at Lywodraeth y DU?
- Sut mae cadw, adfer neu ailgynllunio dynodiadau ansawdd lleol ar ôl Brexit er budd y diwydiant bwyd-amaeth yng Nghymru?
- Sut y gallai dynodiadau o'r fath gyd-fynd â Brand Cymru/Wales a chael eu cydbblethu â chymorth i'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru? Pwy ddylai gymryd yr awenau?
- A fydd cyfleoedd newydd yn y farchnad, nid dim ond yn y sector artisan, ond hefyd mewn meysydd cynhyrchu bwyd ar ganol y raddfa, er enghraifft caws neu fathau eraill o gynnyrch llaeth?
- Sut y gall Llywodraeth Cymru hwyluso twf gallu i brosesu er mwyn ychwanegu gwerth at y nwyddau hyn?
- A all Llywodraeth Cymru weithio gyda phroseswyr a manwerthwyr i ddatblygu gweledigaeth gryfach i gynnyrch Cymreig, 'o'r pridd i'r plât', ar sail blaenoriaethau sefydledig ar gyfer cynaliadwyedd?

5

Pa gyfleoedd sydd ar gyfer cynnyrch newydd neu wahanol o'r tir yng Nghymru?

Gallai Brexit gynnig cyfleoedd i ailystyried defnydd tir, neu gynnig dulliau newydd o ddefnyddio'r tir ar gyfer y cynnyrch sydd eisoes yn cael ei gynhyrchu. Gallai fod mwy o gyfleoedd o ran cynnyrch garddwriaethol cartref os bydd hi'n mynd yn fwy drud mewnforio o wledydd fel yr Iseldiroedd. Neu gallai cnydau cartref megis coed cynhenid fod yn fwy deniadol i farchnadoedd domestig wrth i'r rheoliadau bioddigolwch ar fewnforion gael eu tynhau. Ar yr un pryd efallai y bydd angen goresgyn rhwystrau diwylliannol os rhoddir newidiadau i ddefnydd tir ar waith yn eang. Mae Cymru'n ffynhonnell ffrwythlon o ynni cynaliadwy ond gall datblygiadau ynni dŵr, haul a gwynt ennyn gwrthwynebiad. Mae heriau tebyg yn codi o ran twf posib mewn sectorau eraill megis planhigfeydd conwydd neu ffermio ieir neu gynnyrch llaeth yn ddwys, sydd i gyd yn bethau y gellid eu ffafrio ym marchnad y DU ar ôl Brexit, ond a allai godi materion esthetig ac amgylcheddol.

Gallai llunwyr polisi ystyried:

- Sut y gellid ehangu diwydiant garddwriaeth Cymru?
- A oes potensial i gynyddu'r mân werthiannau uniongyrchol a'r cynlluniau blychau llysiau a sut y gellid cynorthwyo mentrau o'r fath?
- A ellid datblygu marchnad ansawdd uchel i wân a ffibrau eraill megis cashmir? Pa wersi y gellid eu dysgu gan wledydd fel Seland Newydd?
- A allai ynni adnewyddadwy chwarae mwy o ran (e.e. tyrbinau gwynt, ynni haul, cynlluniau ynni dŵr bach) wrth gynorthwyo cymunedau yn ogystal â pherchnogion tir unigol?
- Pa ran allai coedwigaeth fasnachol ar raddfa fwy ei chwarae? Sut y gellid cefnogi cynlluniau creu coetiroedd a beth fyddai'r ymateb gan y cyhoedd i hynny?

6

Sut y gallai Brexit effeithio ar dueddiadau demograffig cefn gwlad Cymru?

Trafodaethau ynghylch mewnfudo oedd un o brif elfennau'r refferendwm ar aelodaeth Prydain o'r UE ac roedd y trafodaethau hyn yn aml yn achosi gwahaniaeth barn chwyrn. Yng nghefn gwlad Cymru gwelwyd llai o fewnfudo gan ddinasyddion yr UE na llawer rhan arall o'r DU, ond er hynny mae poblogaeth mewnfudwyr o'r UE yn sylweddol mewn rhai mannau ac mewn sectorau penodol, gan gynnwys y sectorau prosesu bwyd a gofal iechyd. Mae'r ansicrwydd ynghylch statws dinasyddion yr UE yn y DU yn y dyfodol, a'r cyfyngiadau posib ar fewnfudo o'r UE yn y dyfodol, yn cynnig her o ran cynllunio at y dyfodol yn y sectorau hynny, gan arwain o bosib at brinder llafur mewn rhai diwydiannau allweddol yng nghefn gwlad Cymru. Ar yr un pryd, mae mudo yng nghefn gwlad Cymru hefyd yn ymwneud â materion mudo o fewn Cymru ac o fewn y DU, yn enwedig wrth i bobl symud i mewn ac allan o ardaloedd Cymraeg. Pe bai Brexit yn arwain at gyfyngu ymhellach ar y cyfleoedd economaidd sydd i'w cael yn y gogledd a'r canolbarth, gallai waethygu'r duedd i siaradwyr Cymraeg iau adael yr ardaloedd hynny a symud i drefi mwy o faint a dinasoedd, yn enwedig Caerdydd, a byddai hynny'n lleihau mwy fyth ar y màs critigol o siaradwyr yn y 'fro Gymraeg'. Yn yr un modd, mae aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi rhoi cefnogaeth weithredol i adfywio diwylliant a hunaniaeth y Gymraeg a phrosiectau cymunedol a ariannwyd gan yr UE.

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- Pa effaith y gallai cynigion i newid yr hawl i symud yn ddigyfyngiad rhwng yr UE a'r DU ei chael ar gyflogaeth mewn sectorau allweddol yng nghefn gwlad Cymru?
- Sut y gellid ymdrin â'r prinder llafur posib drwy ddenu gweithwyr o fannau eraill o Gymru neu o weddill y DU? Sut y gallai Llywodraeth Cymru gydweithio â chyflogwyr i hwyluso recriwtio'n lleol?
- I ba raddau y gallai Llywodraeth Cymru gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau'r Gymru wledig yn cael eu hystyried mewn polisiau mewnfudo yn y dyfodol?
- Pa effeithiau y gallai unrhyw newidiadau i economi cefn gwlad Cymru ar ôl Brexit eu cael ar fewnfudo ac allfudo mewn cymunedau gwledig, gan gynnwys y fro Gymraeg? Beth allai'r goblygiadau fod o ran defnyddio'r Gymraeg yn yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol?
- Sut mae gwneud iawn am y cymorth i'r Gymraeg a mentrau diwylliannol drwy raglenni ariannu'r UE a fydd yn cael eu colli?
- A fydd modd dod â gwahanol boblogaethau gwledig at ei gilydd ar ôl y bleidlais ar Brexit?



7

Sut mae sicrhau na fydd ardaloedd gwledig ar eu colled o'u cymharu â'r ardaloedd trefol a dinesig wrth gael cymorth ariannol yn y dyfodol?

Mae Cymru wedi bod ar ei hennill yn sgil cyllid yr UE ac mae'n annhebygol o gael unrhyw fantais sylweddol o unrhyw "ddifidend Brexit". Bydd y model cyllidol a ddefnyddir gan y DU ar gyfer dyrannu unrhyw gyllid a adenillir o'r UE rhwng y llywodraethau datganoledig yn hollbwysig wrth benderfynu a fydd Llywodraeth Cymru'n cael cyllid sy'n gyfatebol i lefelau'r UE, neu a fydd cynnydd neu leihad mewn termau real. Yn ogystal, bydd penderfyniadau ynghylch ailgyflwyno rhaglenni yn lle'r cyllid presennol gan yr UE yn cael eu gwneud yng nghyd-destun sawl blwyddyn o bolisiau llymder sydd wedi lleihau cyllideb Llywodraeth Cymru ac wedi arwain at doriadau ariannol mewn meysydd fel addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cynnwys cymunedau cefn gwlad. A dweud y gwir, mae aelodaeth o'r UE yn golygu bod cyllid wedi'i glustnodi yn benodol i feysydd megis amaeth a datblygu gwledig, gan eu diogelu rhag effeithiau polisiau llymder. Ond ar ôl Brexit, bydd y dyraniadau cyllid i'r sectorau hyn yn destun mwy o graffu, ac mae'n debygol y bydd pwysau gwleidyddol i gyfeirio mwy o arian at wasanaethau cyhoeddus, ac at iechyd yn enwedig. O gofio dosbarthiad daearyddol y boblogaeth yng Nghymru ac felly'r galw ar y gwasanaethau cyhoeddus, y tebyg yw y byddai unrhyw ailgyfeirio cyllid o'r fath yn golygu llai o wariant cyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru o'i gymharu â'r ardaloedd trefol.

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- A fydd Llywodraeth Cymru'n gallu cyfiawnhau parhau â'r cymorth ariannol i ffermwyr a datblygu gwledig os yw gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu torri drwy'r wlad i gyd?
- Sut y gallai manteision economi egniwl yng nghefn gwlad Cymru gael eu mesur a'u dangos?
- A fydd canoli gwasanaethau ymhellach mewn mannau trefol yn achosi mwy o ddiboblogi mewn cymunedau gwledig?
- Sut mae meithrin cyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig a sut y gallai'r seilwaith, gan gynnwys band-eang a rhwydweithiau symudol, helpu yn hynny o beth?
- A fyddai adfywio Partneriaeth/Fforwm Gwledig Cymru ar draws y sectorau yn ddefnyddiol er mwyn cynrychioli buddiannau cefn gwlad a llywio penderfyniadau am gyllid?
- Sut y gallai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU gyfrannau at fuddsoddi yng nghefn gwlad Cymru, a sut y gellid sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau a chyllid Llywodraeth Cymru?



8

Sut mae meithrin ymhellach y berthynas a'r cysylltiadau cadarnhaol rhwng yr ardaloedd gwledig a threfol?

Mae gan ardaloedd gwledig yng Nghymru ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth eu hunain fel cymunedau gweithio ond nid ydynt yn gallu ffynnu ar eu pen eu hunain. Mae cynhyrchiant gwledig yn cael ei yrru gan y galw mewn ardaloedd trefol yn bennaf, ond yr ardaloedd trefol sy'n darparu llawer o'r gwasanaethau y mae angen i boblogaethau gwledig eu defnyddio. I'r rhai sy'n byw yn y canolfannau trefol a dinesig, mae cefn gwlad yn darparu bwyd a chynnyrch arall, ond mae hefyd yn cynnig mannau ar gyfer hamdden a llonyddwch. Mae rhai o drigolion cefn gwlad yn cymudo i'r gwaith mewn trefi a dinasoedd. Mae'r cysylltiadau hyn yn bwysig ond gallant arwain at wrthdaro ynghylch tirweddau a blaenoriaethau .

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- Pa flaenoriaethau ddylai fod gan Gymru ar gyfer cefn gwlad – ai man cynhyrchu yw cefn gwlad, neu faes chwarae i drigolion y trefi yn ogystal â phobl cefn gwlad? A all wneud y ddau beth hyn?
- Pa ystyriaethau y mae angen rhoi sylw iddynt o ran yr amgylchedd a thirweddau treftadaeth?
- Pa ran y mae cyfalaf dynol a chymdeithasol yn ei chwarae, yn ogystal â'r cyfalaf naturiol ac amgylcheddol, wrth wneud cefn gwlad yn ddeniadol i ymwelwyr?
- Pa adnoddau sydd eu hangen ar ardaloedd gwledig er mwyn cynnal y llif a'r cysylltiadau pwysig sydd rhyngddynt a'r canolfannau trefol?
- Pa flaenoriaethau y mae angen eu cyflawni o hyd, e.e. cysylltiadau band-eang a symudol i'r poblogaethau mwyaf anodd eu cyrraedd – a sut mae cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen a'r gost?
- Sut y gall buddsoddi mewn cysylltedd, megis band-eang, hwyluso darpariaeth gwasanaethau'r sector cyhoeddus i fannau gwledig ac felly arbed arian yn y pen draw?
- Sut mae cynorthwyo busnesau gwledig Cymru i ddatblygu marchnadoedd trefol y tu hwnt i Gymru yn y DU a thramor?



9

Sut mae cefnogi ac annog datblygu gwledig ledled cefn gwlad Cymru ar ôl Brecsit?

Drwy Raglen Datblygu Gwledig Cymru, mae cyllid gan yr UE wedi bod ar gael i bob cymuned wledig yng Nghymru, ac fel rheol mae wedi'i ddyrannu drwy gystadleuaeth yn hytrach na thrwy fformiwla sy'n seiliedig ar angen. Mae hyn wedi cynnwys sawl agwedd ar raglen LEADER, sydd wedi galluogi amryw o brosiectau lleol i hybu datblygu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol. Yn ogystal, mae manau gwledig yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gallu manteisio ar y lefel uchaf o gymorth o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ers 2001 ('Amcan 1' neu gyllid 'Rhanbarth Cydgyfeirio' gynt), er nad yw ar gael i gefn gwlad Dwyrain Cymru. Mae Brecsit yn cynnig cyfle i ailfeddwl am y model a ddefnyddir i dargedu cymorth datblygu economaidd yng Nghymru, ac yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau i gymunedau gwledig. Mae'n debyg y byddai symud yn nes at fodelau dyrannu ar sail dangosyddion amddifadedd, er enghraifft, yn rhoi cymunedau gwledig dan anfantais, gan nad yw'r patrymau gwasgaredig o dlodi a welir yng nghefn gwlad yn cael eu mesur yn ddigonol gan y dulliau ystadegol a ddefnyddir .

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- Sut mae galluogi pob ardal wledig yng Nghymru i gyflawni ei photensial economaidd yn llawn?
- A ddylai cyllid gael ei yrru gan gystadleuaeth agored, ar sail datblygu economaidd ynteu ar sail asesiadau amddifadedd? A ellir mesur patrymau a phocedi o amddifadedd gwledig mewn modd priodol er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddyrannu'n deg?
- Sut mae mesur anghenion datblygu economaidd a thargedu'r cymorth yn briodol?
- Sut mae teilwra polisi at y gwahanol ardaloedd daearyddol a diwylliannol?
- A fyddai fersiwn o LEADER wedi'i ailwampio at anghenion Cymru er mwyn gallu creu partneriaethau â byd busnes a'r sector cyhoeddus yn darparu sbardun i ysgogi twf gwledig?
- A allai Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol chwarae rhan fwy gweithredol mewn datblygu cymdeithasol ac economaidd?

10

Sut y gall llunwyr polisi helpu diwydiannau newydd ac arloesol i ymsefydlu a hefyd i aros yng Nghymru?

Mae angen cyfalaf dynol ac adnoddau i sbarduno gwaith arloesol yng nghefn gwlad Cymru, ac mae hyn yn arbennig o wir am y trefi marchnad allweddol. Ni fydd dynodi parthau economaidd a darparu cyfleusterau ar y cyd ond yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol os bydd y cymunedau sy'n rhanddeiliaid yn ymroi i hynny. Er mwyn i ardaloedd gwledig yng Nghymru dyfu'n economaidd, mae angen i lunwyr polisi a thrigolion cefn gwlad fod yn ystyried diwydiannau newydd a rhai sy'n datblygu ac yn meithrin cwmnïau newydd arloesol â chyllid torfol a allai ddatblygu'n gyflogwyr o bwys.

Mae angen i lunwyr polisi ystyried:

- Sut y gall cymunedau gyfrannu at hybu datblygu economaidd mwy organig mewn ardaloedd gwledig?
- A oes unigolion neu grwpiau y gellir ymddiried ynddynt i gymryd yr awenau?
- Sut mae teilwra'r mathau hyn o fentrau ar gyfer ardaloedd penodol y mae eu hanes a'u hanghenion yn amrywio?
- Sut y gall polisïau fanteisio ar werth amlswyddogaethol ardaloedd gwledig?
- Pa ddiwydiannau sy'n datblygu allai fod yn enillwyr posib i ardaloedd gwledig dros yr 20 mlynedd nesaf?
- Sut mae annog cwmnïau newydd i ymsefydlu yng nghefn gwlad Cymru?
- Sut y gall Cymru sicrhau bod ei gweithlu gwledig yn datblygu sgiliau ar gyfer anghenion y dyfodol yn hytrach na'r gorffennol?
- Sut mae cymell cwmnïau i dyfu ac yna aros mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru?
- Pa wersi y gellid eu dysgu o ardaloedd gwledig eraill yn y DU a thu hwnt?

Cyfranwyr



Mae Robert Bowen yn Ddarlithydd mewn Entrepreneuriaeth Ryngwladol yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe. Mae ei brif ddiddordebau ymchwil ym maes datblygiad cwmnïau bwyd a diod bach a chanolig, mentergarwch gwledig, a marchnata lleoedd. Yn ei ymchwil diweddaraf mae wedi bod yn ymchwilio i ryngwladoli cwmnïau bwyd a diod bach a chanolig yng Nghymru ac yn Llydaw .

Cysylltwch â: robert.bowen@swansea.ac.uk




Mae Janet Dwyer yn Athro Polisi Gwledig yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymuned Prifysgol Caerloyw, grŵp rhyngddisgyblaethol sy'n ymchwilio i bolisi gwledig a newid yng nghefn gwlad. Mae ganddi brofiad o werthuso polisiau amaeth, datblygu gwledig ac amgylcheddol yr UE a'r DU, ac arbenigedd ym maes dulliau integredig, materion amaeth-amgylcheddol, LEADER ac addasu sefydliadol.

Cysylltwch â: jdwyer@glos.ac.uk



Mae Rhys Dafydd Jones yn ddarlithydd mewn daearyddiaeth ddynol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ei ymchwil yn edrych ar fudo ac amlddiwylliannaeth mewn rhanbarthau gwledig, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gyfraniadau ymfudwyr o'r UE i gymdeithas sifil Cymru .

Cysylltwch â: rhj@aber.ac.uk



Mae Anne Liddon yn Rheolwr Cyfathrebu Gwyddonol yng Nghanolfan yr Economi Wledig ym Mhrifysgol Newcastle. O 2007-2013 bu'n Rheolwr Cyfathrebu Gwyddonol i raglen Cynghorau Ymchwil y DU ar yr Economi Wledig a Defnydd Tir.

Cysylltwch â: anne.liddon@ncl.ac.uk



Mae Terry Marsden yn Athro Polisi Amgylcheddol a Chynllunio yn yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy. Mae'n ymchwilio i feysydd rhyngddisgyblaethol gwyddor gymdeithasol a pholisi cymhwysol daearyddiaeth wledig, cymdeithaseg wledig, cymdeithaseg amgylcheddol, daearyddiaeth a chynllunio .

Cysylltwch â: MarsdenTK@cardiff.ac.uk



Mae Peter Midmore yn Athro Economeg yn Ysgol Fusnes Aberystwyth. Mae ei ddiddordebau ymchwil ym maes economeg ranbarthol a gwledig, gyda phwyslais penodol ar effaith polisiau amaeth a chefn gwlad yng Nghymru. Yn ddiweddar (2017-18) bu'n Llywydd ar Gymdeithas Economeg Amaethyddol y DU, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar astudiaeth wedi'i hariannu gan yr UE ar wydnwch ffermydd a chynaliadwydd yn Ewrop .

Cysylltwch â: pxm@aber.ac.uk

Cyfranwyr



Mae Sally Shortall yn Athro Dug Northumberland mewn Economeg Wledig ym Mhrifysgol Newcastle. Mae wedi cyhoeddi'n eang ar bolisi ac arferion datblygu gwledig, rôl menywod ar ffermydd ac mewn datblygu gwledig, newidiadau cymdeithasol i arferion ffermio a'r cysylltiadau rhwng tystiolaeth a pholisi. Mae wedi gweithio gyda Senedd Ewrop, y Comisiwn Ewropeaidd a'r Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO). Mae'n ymchwilio ar hyn o bryd i brawfesur o safbwynt cefn gwlad yng Ngogledd Iwerddon a menywod ym myd amaeth yn yr Alban.

Cysylltwch â: sally.shortall@ncl.ac.uk



Mae Prysor Williams yn Uwch Ddarlithydd Rheolaeth Amgylcheddol yn Ysgol y Gwyddorau Naturiol ym Mhrifysgol Bangor ac mae ynghlwm â Chanolfan Syr William Roberts ar gyfer Defnydd Tir Cynaliadwy sydd newydd ei lansio yno. Mae llawer o'i ymchwil yn ymwneud â'r rhyngwyneb rhwng amaeth a'r amgylchedd, ac mae'n cydweithio ar sawl prosiect gyda'r sector. Mae hefyd yn aelod o nifer o bwyllgorau sy'n edrych ar faterion gwledig ehangach.

Cysylltwch â: prysor.williams@bangor.ac.uk



Mae Michael Woods yn Athro Daearyddiaeth Ddynol ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn Gyd-gyfarwyddwr Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/WISERD@Aberystwyth. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar newidiadau i gymunedau gwledig, polisi gwledig a gwleidyddiaeth wledig ac ar hyn o bryd mae'n arwain prosiect GLOBAL-RURAL y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd. Rhwng 2007 a 2013 bu'n Gyd-gyfarwyddwr Arsyllfa Wledig Cymru, sy'n llunio tystiolaeth i gefnogi'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru.

Cysylltwch â: m.woods@aber.ac.uk



Mae Sophie Wynne-Jones yn Ddarlithydd mewn Daearyddiaeth Ddynol yn Ysgol y Gwyddorau Naturiol ym Mhrifysgol Bangor ac mae hefyd yn weithgar yng Nghanolfan Syr William Roberts ar gyfer Defnydd Tir Cynaliadwy. Mae ei hymchwil yn edrych ar faterion yn ymwneud â newid defnydd tir gwledig a llywodraethu amaeth-amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau gan randdeiliaid, cydweithio a dadleuon am wybodaeth. Cyn hynny bu'n gwneud gwaith ymchwil i Lywodraeth Cymru yn rhan o Arsyllfa Wledig Cymru.

Cysylltwch â: s.wynne-jones@bangor.ac.uk

Sefydlwyd **Canolfan yr Economi Wledig (CRE)** yn 1992 ym Mhrifysgol Newcastle ac mae'n arbenigo ar ymchwil rhyngddisgyblaethol yn y gwyddorau cymdeithasol a pholisi cymhwysol ar gyfer cyflawni amcanion datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Ymhlith y pynciau a drafodir mae cyflogaeth wledig, polisi gwledig, ymddygiad ffermwyr a defnyddwyr, twristiaeth wledig, rheoli'r amgylchedd, a chymunedau a sefydliadau gwledig. Yn cynnwys tîm o fwy na 50 o wyddonwyr cymdeithasol, gan gynnwys economegwyr, daearyddwyr, cymdeithasegwyr, marchnatwyr bwyd, gwyddonwyr gwleidyddol a seicolegwyr, mae'n un o'r grwpiau mwyaf arwyddocaol o wyddonwyr cymdeithasol gwledig yn Ewrop. Yn 2013 cydnabuwyd rhagoriaeth ei hymchwil a'i dysgu pan enillodd Wobr Addysg Bellach ac Uwch y Queen's Anniversary Trust.

Canolfan ymchwil rhyngddisgyblaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth yw **Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/ WISERD@Aberystwyth**, a'i nod yw datblygu ein dealltwriaeth o wleidyddiaeth a chymdeithas gyfoes Cymru mewn byd rhyng-gysylltiedig, cynorthwyo a chyflawni ymchwil gyda'r gorau yn y byd yn y gwyddorau cymdeithasol, a chyfrannu at wybodaeth a dadleuon cyhoeddus a datblygu polisi yng Nghymru. Mae'r Ganolfan yn adeiladu ar enw da Sefydliad Gwleidyddiaeth Cymru a Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn dwyn ynghyd ddaearyddwyr, gwyddonwyr gwleidyddol, seicolegwyr a haneswyr yn ogystal â gwyddonwyr cymdeithasol o adrannau cysylltiedig a chanddynt ddiddordeb yng Nghymru. Dyma adain Aberystwyth o WISERD hefyd, yn cynnig cysylltiadau â gwyddonwyr cymdeithasol ym mhrifysgolion Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe. .

Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar weithdy a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda chymorth Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru/WISERD@Aberystwyth, canolfan ymchwil WISERD/Cymdeithas Sifil ESRC a phrosiect GLOBAL-RURAL yr ERC. Atgynhyrchir y ffotograffau drwy garedigrwydd yr Athro Michael Woods a Dr Robert Bowen.

Testun © Newcastle University/Prifysgol Aberystwyth 2018.

Centre for Rural Economy
School of Natural and Environmental Sciences
Newcastle University
Newcastle upon Tyne
NE1 7RU.
<http://www.ncl.ac.uk/cre/>

Ffôn: +44 (0) 191 208 6623
E-bost: cre@ncl.ac.uk

